# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 8

SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

***[**[F1]**Adolygiadau*

### [[F1]149D Ystyriaethau cyffredinol

Wrth gynnal adolygiad o dan adran 149A neu 149B, rhaid i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n cael eu hadolygu, roi sylw i—

(a) argaeledd a hygyrchedd y gwasanaethau;

(b) ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau;

(c) y ffordd y caiff y gwasanaethau eu rheoli;

(d) darbodaeth ac effeithlonrwydd eu darpariaeth a'u gwerth am arian;

(e) argaeledd ac ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i bobl yn ardal yr awdurdod lleol ynghylch y gwasanaethau;

(f) y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol gan adrannau 5 (dyletswydd i hyrwyddo llesiant), 6 (dyletswyddau hollgyffredinol eraill) a 7 (dyletswyddau sy'n ymwneud ag Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig) i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r gwasanaethau ac effeithiolrwydd y camau a gymerir gan awdurdod lleol i gyflawni'r dyletswyddau hynny;

(g) effeithiolrwydd y camau a gymerir gan awdurdod lleol i sicrhau'r canlyniadau a bennir mewn datganiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 8 (datganiad o ganlyniadau sy'n ymwneud â llesiant) i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r gwasanaethau;

(h) unrhyw fesurau perfformiad a thargedau perfformiad a nodir mewn cod a ddyroddir o dan adran 9 sy'n berthnasol yn eu barn hwy;

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/06/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 149D yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) unrhyw ofynion neu ganllawiau sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145 sy'n berthnasol yn eu barn hwy;

(j) y graddau y mae awdurdod lleol wedi cynnwys pobl o ardal yr awdurdod lleol—

(i) mewn penderfyniadau ynghylch y ffordd y mae ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu harfer, a

(ii) wrth adolygu'r arferiad o'r swyddogaethau hynny.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Aau. 149A-149D ac croes-benawd wedi eu mewnosod (29.4.2019) gan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (anaw 2), **aau. 57(1)**, 188(1); O.S. 2019/864, ergl. 2(3)(c)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/06/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 149D yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.